**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Neuadd Bentref Reynoldston - Church Meadow, Reynoldston, Gŵyr, Abertawe SA3 1AA**

**Dydd Llun, 24 Mehefin 2019 am 7.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | P R Hood-Williams |
| L James | A H Stevens | |

**Hefyd yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| R. Button | S Crocker | S Heard |
| G Howe | M Lewis | H Osborn |
| B Parry | D P Tucker | D Vine |
| R Vine | J Doyle | A Glass |
| J McGregor | I Button | P Jenkins |
| A R Jones | J Chambers | H Roberts |
| J Probert | M Ap Gwent | G Ap Gwent |
| M Dobbins | S Samuel | L Roblin |
| H. Jones | J France | R Kirby |
| M Jones | R Fisher | S Fisher |
| G Evans | R Evans | S Berry |
| A Berry | P Thornton | P Lanfear |
| E Harris | R Harris | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
S Hill, K E Marsh

---

## 1 Croeso a Chyflwyniadau.

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i Neuadd Bentref Reynoldston a dechrau'r cyfarfod.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

**4 Materion yn codi o'r cofnodion.**

Dim.

**5 Cylch gorchwyl. (Er gwybodaeth)**

Adroddwyd am y Cylch Gorchwyl 'er gwybodaeth'.

**6 Cyflwyniad - Gwaith a Rolau Partneriaeth AoHNE Gwyr a Thîm AoHNE Gwyr.**

Rhoddodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, gyflwyniad ar waith Partneriaeth AoHNE Gŵyr. Amlinellodd ddynodiad AoHNE Gŵyr, rôl Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gwaith Tîm AoHNE yn Ninas a Sir Abertawe.

**7 Cyflwyniadau gan y canlynol: -**

- Gwerinwyr Gŵyr

  Rhoddodd Peter Lanfear o Werinwyr Gŵyr gyflwyniad ar waith Gwerinwyr Gŵyr. Tynnodd sylw at y traffig sy'n gyrru'n rhy gyflym ar y tir comin, colli da byw o ganlyniad i ddamweiniau traffig a cholli cynefin ar y tir comin o ganlyniad i'r lleihad sylweddol yn nifer y da byw sy'n pori ar y tir comin.

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

  Rhoddodd Hamish Osborn o CNC gyflwyniad ar rôl a gwaith CNC. Amlygodd rôl y sefydliad o fewn AoHNE Gŵyr, gan gynnwys enghreifftiau o waith ar Benrhyn Gŵyr; gwaith CNC o ran rheoli coedwigaeth ac ansawdd dŵr; safleoedd dynodedig; gwaith rheoli tirwedd a warchodir; prosiectau llygod y dŵr a llyswennod; a rownd arian grant nesaf CNC yn hydref 2019.

- Cymdeithas Gŵyr

  Rhoddodd Guto Ap Gwent, cadeirydd Cymdeithas Gŵyr gyflwyniad ar waith y gymdeithas. Siaradodd am hanes y gymdeithas a'r rôl arwyddocaol sydd gan y gymdeithas ar Benrhyn Gŵyr, gan gynnwys ei amcanion. Cyfeiriodd at y gwaith cynllunio a wnaethpwyd gan y gymdeithas, ei rôl o ran twristiaeth a'r grantiau a'r cymorth ariannol a roddwyd gan y gymdeithas yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Cyngor Abertawe, Y Tîm Cynllunio Strategol

Rhoddodd Tom Evans, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol, gyflwyniad ar sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol, a gymeradwywyd yn ddiweddar gan Gyngor Abertawe, wedi effeithio ar AoHNE Gŵyr a'i chymunedau.

**8 Adolygiad blynyddol o Gynllun Gweithredu AoHNE Gwyr.**

Rhoddodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, gyflwyniad a roddodd adolygiad blynyddol o Gynllun Gweithredu AoHNE Gŵyr. Dywedodd fod disgwyl i'r Cynllun ddod i ben yn 2021-22, ac mae'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu. Rhoddodd y diweddaraf ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, Partneriaeth Tirwedd Gŵyr, cais Awyr Dywyll Gŵyr, prosiect wal Mewslade a Hwb Gwrychoedd Gŵyr ac amlinellodd y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2019-20.

**9 Ethol deg aelod ar gyfer Grwp Llywio AoHNE Gwyr o'r enwebiadau a dderbyniwyd:**

Esboniodd y Cadeirydd fod 12 o enwebiadau wedi'u derbyn am 10 o swyddi gwag fel aelodau o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth. Felly, roedd angen etholiad.

Dosbarthwyd papurau pleidleisio i bawb a oedd yn bresennol. Derbyniwyd 42 o bapurau pleidleisio.

**Penderfynwyd** ethol y canlynol i Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr am gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'r cylch gorchwyl: -

Roger Button
James Chambers
John France
Steve Heard
Sue Hill
Gordon Howe
Philip Jenkins
Barbara Parry
Paul Thornton
Paul Tucker

Hoffai'r aelodau etholedig ymuno â'r canlynol ar y Grŵp Llywio: -

Y Cynghorydd Paul Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jan Curtice
Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams
Y Cynghorydd Lynda James
Y Cynghorydd Andrew Stevens
Hamish Osborn - Cyfoeth Naturiol Cymru

**10 Ethol Is-Gadeirydd y Grwp Llywio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2019/2020.**

**Penderfynwyd** ethol Stephen Heard fel Is-gadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/20.

**11 Panel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (sy'n cynnwys Cadeirydd y Grwp Llywio, 3 Chynghorydd a 4 aelod arall).**

**Penderfynwyd** penodi'r canlynol i Banel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy: -

Y Cynghorydd Paul Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mark Child
Y Cynghorydd Lynda James
Y Cynghorydd Andrew Stevens
David Cole
Keith Marsh
James Chambers
John France

**12 Panel Apeliadau Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (sy'n cynnwys Is-Gadeirydd y Grwp Llywio, 1 Cynghorydd a 6 aelod arall nad ydynt eisoes yn aelodau o Banel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.**

**Penderfynwyd**: -

1) ethol y canlynol fel aelodau Panel Apeliadau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy:

   Stephen Heard (Cadeirydd)
   Barbara Parry

2) cadarnhau gweddill yr aelodau yng nghyfarfod trefnedig nesaf y Grŵp Llywio.

**13 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnodd Rob Vine, Neuadd Bentref Reynoldston, gwestiwn ynghylch y problemau parcio parhaus a gwersylla/parcio dros nos ar ben Cefn Bryn.

Trafodwyd y mater yn ddwys yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys effaith y parcio/gwersylla dros nos a pharcio cyffredinol ar y dirwedd, pentref Reynoldston a'r opsiynau posib sydd ar gael. Ychwanegwyd mai gweithio mewn partneriaeth oedd yr opsiwn gorau er mwyn lliniaru problemau gan fod y tir dan berchnogaeth breifat.

Nodwyd bod yr ardal dan reolaeth Cyngor Cymuned Llanrhidian Isaf. Er hynny, byddai llythyr ar y cyd gan Gynghorau Cymunedol Llanrhidian Isaf a Reynoldston yn amlygu'r materion ymhellach.

Hefyd, cafodd y bobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu hannog i adrodd am unrhyw faterion sy'n peri pryder i Heddlu De Cymru ar eu rhif 101.

**Penderfynwyd** trafod y pwnc yn ystod cyfarfod trefnedig nesaf y Grŵp Llywio.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.07 pm

**Cadeirydd**